**Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 8fed Mehefin 2011 ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Llanelwy**

**Yn bresennol**
Simon Fysh (Cadeirydd)
Celia Blomeley
David Morris

**Hefyd yn bresennol**
Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân
Colin Everett, Clerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

**Ymddiheuriadau**
Jane A Eyton-Jones (Is-gadeirydd)
Cllr Merfyn Thomas
Cllr Glyn Williams

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 31ain Ionawr 2011

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Newid i gyfansoddiad cam 3 o'r weithdrefn gwynion – roedd yr Awdurdod wedi derbyn y newid, ac felly y tro nesaf y cynhelir gwrandawiad cŵyn cam 3, gwahoddir aelod annibybnnol o'r Panel Safonau i sefyll ar y panel.

3.2 Polisi Cwynion yr Ombudsmon – nodwyd nad oedd y polisi wedi cael ei gyhoeddi eto.

3.3 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd dogfen yn cynnwys enghreifftiau o gwynion yn erbyn aelodau Awdurdodau eraill ar gael. Atebodd y Clerc nad oedd yn ymwybodol o ddogfen o'r fath, a bod Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon yn adrodd ynghylch achosion o bwys ond cyhyd ag y gwyddai'r Clerc, ni fu unrhyw gwynion yn erbyn aelodau.

4 ADOLYGIAD O GAMAU'R CYFARFOD DIWETHAF

4.1 Roedd y Clerc wedi anfon llythyr yn ateb ymholiadau a gafwyd mewn cyfarfod o'r blaen. Roedd Celia Blomeley wedi cael yr wybodaeth yn ddefnyddio ac roedd wed egluro rhai materion i aelodau newydd. Bydd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Colin Hansk yn ymdrin â'r awgrymiadau a godwyd mewn cyfarfodydd o'r blaen ynglŷn â pholisïau cwynion/chwythu'r chwiban.

4.2 Mewn perthynas â'r hyfforddiant ar y cod ymddygiad (sy'n cael ei ddarparu gan bob cyngor), bodwyd bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi darparu

gwybodaeth sylfaenol yn y diwrnod cynefino i Aelodau yn 2008. Cynhelir digwyddiad tebyg yn dilyn etholiadau lleol 2012, a gwahoddir aelodau annibynnol i ddod.

5 ADOLYGIAD O'R ADRODDIAD BLYNYDDOL

5.1 Roedd yr aelodau wedi erbyn cop o adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau a oedd wedi cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub llawn ym Mawrth 2011. Nodwyd bod lwfansau'r aelodau annibynnol wedi cael eu hystyried wrth osod y gyllideb.

6 BLAENRAGLEN WAITH

6.1 Fel y nodwyd uchod, gwahoddir yr aelodau annibynnol i ddod i sesiwn gynefino ar gyfer Aelodau newydd wedi etholiadau 2012.

6.2 Y Clerc i ganfod pryd bydd polisi Cwynion yr Ombwdsmon yn cael ei gyhoeddi.

7 FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

7.1 Daeth hysbysiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynglŷn â Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar i rannu arferion a gwybodaeth. Roedd y Fforwm wedi penderfynu gwahodd Cadeirydd a swyddog monitro'r Pwyllgor Safonau Tân ac Achub i ddod yn aelodau o'r fforwm. Roedd y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 10fed Mehefin 2011.

7.2 Cadarnhaodd y Clerc y byddai Barry Davies, Swyddog Monitro, yn mynd, a chadarnhaodd Simon Fysh ei fod hefyd ar gael i fynd ar 10fed Mehefin. Cadarnhaodd Mr Fysh y byddai'n adrodd yn ôl i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod.

8 Y DIWEDDARAF AM YR AWDURDOD

8.1 Cafodd yr Aelodau wybod bod yr Awdurdod erbyn hyn yn gallu dal cronfeydd wrth gefn, a hynny oherywdd newidiadau deddfwriaethol. Y diffiniad o Gronf Wrth Gefn yw cam gwirfoddol gan yr Awdurdod i roi adnoddau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

8.2 Cafodd y Datganiad Llywodraaethu Blynyddol, sy'n rhan o'r datganiad o gyfrifon, ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, a bydd yn cael ei argymell i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

8.3 Roedd y Panel Gweithredol wedi derbyn cyflwyniad ar yr ystadegau perfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2010/11, a byddai copi o'r cyflwyniad hwn yn cael ei anfon i'r aelodau er gwybodaeth.

9 CYFNOD SWYDD

9.1 Nodwyd bod cyfnod Simon Fysh yn ei swydd i fod i orffen ym Medi 2011. Gan mai dyma ail gyfnod Mr Fysh, nid yw'n gymwys i gael ei ailbenodi i'r Pwyllgor.

9.2 Diolchodd y Clerc i Mr Fysh am ei waith fel aelod ac fel Cadeirydd y Pwyllgor.